GloballySusDCymru

Chwefror 2006

Mae'r cylchlythyr hwn wedi'i lunio i hwyluso'r llif gwybodaeth am ddatblygu cynaliadwy yng Nghymru a'r Byd.

Anfonwch e-bost globallysusdcymru@wales.gsi.gov.uk os hoffech chi:

Danysgrifio / Canslo'ch Tanysgrifiad

Cyfrannu at rifyn yn y dyfodol (dyddiad cau 10 Mawrth ar gyfer rhifyn mis Ebrill)

CYNNWYS

Newyddion

cysylltiadau diweddar rhwng Cymru a datblygu cynaliadwy rhyngwladol.

Digwyddiadau

digwyddiadau sy'n gysylltiedig â datblygu cynaliadwy yng Nghymru a gweddill y byd, yn y misoedd nesaf.

Safbwyntiau

dau safbwynt ar ddatblygu cynaliadwy, un o Gymru, un o dramor.

NEWYDDION-CYMRU

PENODIADAU NEWYDD

Mae'r ymgyrch i wneud Cymru y Wlad Fasnach Deg gyntaf yn y byd wedi cymryd cam arall ymlaen gyda phenodi Mark Richardson fel Swyddog Datblygu Masnach Deg Fforwm Masnach Deg Cymru.

Mae Mark wedi gweithio i Ganolfan Gydweithredol Cymru a dechreuodd yn y swydd newydd a ariennir gan Lywodraeth y Cynulliad ddiwedd mis Ionawr. Bydd ei benodiad yn rhoi ysgogiad newydd i'r ymgyrch, sy'n ceisio hybu ymwybyddiaeth a gwerthiant nwyddau masnach deg ledled Cymru. (Bydd y Pythefnos Masnach Deg eleni rhwng 6 ac 19 Mawrth ac mae nifer o weithgareddau wedi'u cynllunio ar gyfer Cymru.

Am fwy o wybodaeth, gweler **http://www.walesfairtradeforum.org.uk**

Penodwyd Helen Nelson fel Cyfarwyddwyr Gweithredol newydd Cynnal Cymru – Fforwm Datblygu Cynaliadwy Cymru.

Mae Miss Nelson, 31 oed o Aberdâr, wedi cael gyrfa lewyrchus yn cyflwyno datblygu cynaliadwy ar lawr gwlad yng Nghymru. Croesawodd y Cynulliad ei gwaith blaenorol fel cydlynydd Ymlaen Ceredigion fel enghraifft ardderchog ar gyfer hyrwyddo datblygu cynaliadwy.

Am fwy o wybodaeth, gweler **http://www.cynnalcymru.org**

CYHOEDDIADAU NEWYDD

'Creu Cymru Well' – Strategaeth Gorfforaethol Newydd Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru

Mae'r strategaeth hon, a fydd yn cael ei lansio ym mis Ebrill 2006, yn cynnig gweledigaeth ar gyfer lle gwell i bobl a bywyd gwyllt, ar gyfer cenedlaethau presennol a chenedlaethau yn y dyfodol ar sail naw thema amgylcheddol bwysig a phum rhaglen newid.

Mae'r Asiantaeth wrthi'n creu cit offer i arweinwyr tîm a phosteri yn esbonio sut gall unigolion gyfrannu at greu Cymru well.

Am fwy o wybodaeth anfonwch e-bost i **jacqui.murray@environment-agency.gov.uk**

Canolfan Gydweithredol Cymru – Gweledigaeth Strategol ar gyfer y sector cydweithredol yng Nghymru, 2007 – 2012

Ei gweledigaeth ar gyfer y sector yw creu mudiad cydweithredol bywiog a chynaliadwy sy'n cyfrannu'n rhyngweithiol i economi ar dwf a chydraddoldeb cymdeithasol i bawb. Y Ganolfan yw'r asiantaeth cymorth busnes fwyaf blaenllaw yng Nghymru, gan weithio gyda Chwmnïau Cydweithredol a Mentrau Cymdeithasol. Mae wedi cefnogi sawl prosiect cynaliadwyedd, gan gynnwys Fforwm Ieuenctid Cymru ar Ddatblygu Cynaliadwy, Arbedwyr Hadau Bro Ddyfi, Sundance Renewables a'r Ganolfan Technoleg Amgen.

Am gymorth a hyfforddiant busnes am ddim, cysylltwch â'r Ganolfan ar 029 2055 4955 neu ewch i **www.walescoop.com**

Ymgynghori ar ddatblygu cynaliadwy diwydiant twristiaeth Cymru

Mae Bwrdd Croeso Cymru wrthi'n cynnal ymarfer ymgynghori ar sut gall y sector fod yn fwy cynaliadwy. Mae dogfen ymgynghori, 'y Fframwaith Twristiaeth Cynaliadwy', wedi'i llunio i gynorthwyo'r drafodaeth. Mae ar gael yn http://www.wtbonline.gov.uk/sustainability

Mae'r ddogfen yn amlinellu'r heriau allweddol o ran gwneud Cymru'n gyrchfan mwy deniadol ac mae'n gofyn cwestiynau ynghylch sut gall y sectorau preifat a chyhoeddus ddatblygu camau gweithredu ymarferol a fydd yn hyrwyddo datblygu cynaliadwy y diwydiant.

Mae Bwrdd Croeso Cymru hefyd yn fodlon cyfarfod â sefydliadau unigol i drafod y fframwaith, neu bydd yn derbyn sylwadau drwy'r post neu e-bost tan 17 Chwefror 2006.

Am fwy o wybodaeth, anfonwch e-bost i **sian.casswell@tourism.wales.gov.uk**

Pobl, Lleoedd, Dyfodol – Cynllun Gofodol Cymru

Mae cynnydd sylweddol yn cael ei wneud ledled Cymru o ran datblygu Cynllun Gofodol Cymru, sef Pobl, Lleoedd, Dyfodol. Mae Gweinidogion y Cynulliad wedi arwain camau gweithredu ym mhob un o'r chwe maes gofodol ac mae strwythurau wedi'u gosod i fynd i'r afael â'r prif faterion gydag awdurdodau lleol, a'r sectorau gwrifoddol, cydraddoldeb, amgylcheddol a busnes yn cyfranogi.

Bydd gwaith yn y dyfodol yn canolbwyntio ar ddatblygu'r cysylltiadau â Chynlluniau Datblygu Lleol a Strategaethau Cymunedol, a datblygu rôl y grwpiau ardal i ddylanwadu ar bolisïau cenedlaethol sy'n effeithio arnynt.

Bydd manylion yn cael eu postio'n fuan yn **http://www.wales.gov.uk/themesspatialplan/index.htm** neu cysylltwch ag Uned Cynllun Gofodol y Cynulliad ar 029 2082 1749.

Fforwm Ieuenctid Cymru ar Ddatblygu Cynaliadwy – Prosiect Newid yn yr Hinsawdd

Penderfynodd Fforwm Ieuenctid Cymru ar Ddatblygu Cynaliadwy (FfICDC) ganolbwyntio ar 'weithredu ar newid yn yr hinsawdd' hyd y gellir rhagweld.

Penderfynodd Fforwm Ieuenctid Cymru ar Ddatblygu Cynaliadwy (FfICDC) ganolbwyntio ar 'weithredu ar newid yn yr hinsawdd' hyd y gellir rhagweld.

Mae yna gynlluniau i lunio adroddiad o ganlyniadau'r grwpiau hyn a hefyd i gynnal cyfres o ddigwyddiadau a fydd yn ceisio cyflwyno syniadau am weithredu ar newid yn yr hinsawdd i bobl ifanc yng Nghymru mewn ffyrdd arloesol.

Am fwy o wybodaeth, gweler **http://www.wyfsd.org** neu anfonwch e-bost i **info@wyfsd.org**

Cyfrifo Ôl Troed Carbon Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru

Mae cyllid wedi'i sicrhau gan Ymddiriedolaeth Garbon Cymru i Asiantaeth yr Amgylchedd weithio gydag Ymgynghorydd NIFES i gyfrifo ei Hôl Troed Carbon.

Mae'r Asiantaeth yn gyffrous am y prosiect hwn gan y bydd yn nodi ei ollyngiadau mwyaf, ac yn datblygu strategaeth wedi'i thargedu ar gyfer yr holl staff yng Nghymru a fydd yn helpu i leihau biliau ynni ac ôl troed carbon Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru.

Am fwy o wybodaeth anfonwch e-bost i **jacqui.murray@environment-agency.gov.uk**

Fframwaith Datblygu Cynaliadwy Rhyngwladol Cymru

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cyhoeddi dogfen ymgynghori ar Fframwaith Datblygu Cynaliadwy Rhyngwladol Cymru. Bydd y Fframwaith yn nodi'r hyn y gall Llywodraeth Cynulliad Cymru ei wneud i ymateb i argyfyngau a thrychinebau rhyngwladol, a sut gall helpu i gyflawni Nodau Datblygu'r Mileniwm y Cenhedloedd Unedig – o fewn y pwerau sydd ar gael.

Byddwn yn trefnu digwyddiad cyhoeddus i bwyso a mesur safbwyntiau am y syniadau yn y Fframwaith - mae cysylltiadau i'r dogfennau yn: **http://www.wales.gov.uk/keypubconsultation/index.htm**

Gobeithir y bydd y Fframwaith yn cael ei lansio'n ffurfiol yn y gwanwyn 2006 yn dilyn y cyfnod ymgynghori. Byddai Jon Townley yn fodlon trafod y Fframwaith neu wneud cyflwyniadau i grwpiau neu gyfarfodydd. Cysylltwch ag ef yn **jon.townley@wales.gsi.gov.uk**

Ymdrech ar y cyd yn cyflawni cynllun ar gyfer Coleg yr Iwerydd

Cyflwynodd sesiwn ryngweithiol rhwng myfyrwyr, staff ac ymgynghorwyr allanol bolisi amgylcheddol cryf gyda nodau tymor byr a thymor hir ar gyfer Coleg yr Iwerydd. Mae'n dechrau â chytundeb i wneud pob ymdrech i leihau ei effaith amgylcheddol ei hun, a galluogi ac ysbrydoli myfyrwyr i leihau eu heffaith hwy.

Mae'r polisi'n cyd-fynd â'r ymrwymiad i ddatblygu cynaliadwy a ddangoswyd eisoes gan y Coleg drwy weithredoedd arloesol fel gosod boeler bio-màs. Mae'r polisi hwn yn mynd â gweithredu gam ymhellach, gydag amcanion SMART a dyddiad cau ar gyfer adolygu yn 2007.

Y gweithdy oedd elfen olaf chwe mis o ymchwil a gynhaliwyd gan Sara Turnbull, myfyriwr ar gwrs MSc a gynhelir gan Brifysgol Dwyrain Llundain yn y Ganolfan Technoleg Amgen, Machynlleth.

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â Sara yn **turnbull_sara@hotmail.com**

NEWYDDION RHYNGWLADOL

Rhanbarthau i drafod Strategaeth Datblygu Cynaliadwy newydd yr UE

Cafodd Strategaeth Datblygu Cynaliadwy yr UE ymateb siomedig pan gafodd ei chyhoeddi gan y Comisiwn ym mis Rhagfyr diwethaf yn dilyn ymgynghori cynhwysfawr.

Roedd aelod wladwriaethau, rhanbarthau a rhanddeiliaid yn rhagweld un ddogfen a fyddai'n ymgorffori ymrwymiadau cyfredol gyda chynllun cyflwyno cryf i ddangos arweinyddiaeth gan yr UE ar ddatblygu cynaliadwy.

Bellach, cyfrifoldeb Llywyddiaeth Awstria yw cymryd y Strategaeth drwy drafodaethau'r Cyngor, gyda'r nod o gwblhau'r fersiwn derfynol erbyn mis Mehefin 2006.

Bydd Cymru yn cynnig y cyfle i ranbarthau roi sylwadau ar y Strategaeth newydd yn ystod digwyddiad a drefnir gyda phartneriaid drwy Ranbarthau Cynaliadwy Ewrop ym Mrwsel y gwanwyn hwn. Bydd y digwyddiad yn ymateb i'r Strategaeth cyn i drafodaethau'r Cyngor ddod i ben a dechrau gweithio ar sut bydd rhanbarthau'n cyflwyno'r fersiwn derfynol drwy bolisi ac arfer arloesol.

Am fwy o wybodaeth, gweler **www.sustainable-euregions.net**

nrg4SD yn siarad dros ranbarthau ym Montréal

Roedd nrg4SD ymysg y cyntaf i glywed bod aelod wladwriaethau wedi cytuno i ddechrau sgwrsio am ymrwymiadau ôl-2012 i leihau gollyngiadau nwy t_ gwydr mewn gwledydd datblygiedig pan gyfarfu yn y Gynhadledd Genedlaethol Unedig ar Newid yn yr Hinsawdd ym Montréal mis Rhagfyr diwethaf.

Yn ogystal â chynnal digwyddiad ymylol yn y Gynhadledd ar gynghreiriau masnachu gollyngiadau rhyng-ranbarthol, cynhaliodd y Rhwydwaith drafodaethau cychwynnol am gydweithredu yn y dyfodol rhwng nrg4SD a'r Cenhedloedd Unedig gyda Chyfarwyddwr o Raglen Ddatblygu'r Cenhedloedd Unedig. Roedd y Rhwydwaith hefyd yn falch i gyhoeddi'n ffurfiol dri aelod o Lydaw (Ffrainc), Callao (Periw) a Riau (Indonesia).

Bydd y rhwydwaith rhyngwladol, nrg4SD, yn cyfarfod unwaith eto ym mis Ebrill ym Mrwsel ar gyfer y Cynulliad Cyffredinol a'r Pwyllgor Llywio.

Am fwy o wybodaeth, gweler **www.nrg4sd.net**

Gwyrddu Gemau Olympaidd a Gemau Paralympaidd y Gaeaf yn Torino

Yr ugeinfed Gemau Olympaidd a Gemau Paralympaidd y Gaeaf yn Torino a gynhelir eleni fydd y digwyddiadau chwaraeon mawr cyntaf gwirioneddol "wyrdd" yn Ewrop.

Mae angen datblygiadau ar raddfa fawr am sawl blwyddyn ar gyfer digwyddiadau chwaraeon sydd yn digwydd unwaith, ac mae'r ddau ddigwyddiad hwn yn gwneud defnydd da o offer amgylcheddol gwirfoddol yr UE, yn enwedig system eco-reoli ac archwilio'r UE (EMAS) ac eco-label a chaffael gwyrdd Ewrop. Meddai Llywydd y Pwyllgor Trefnu: "Canfuom fod offer yr UE yn fwyaf addas ar gyfer delio â'r agweddau amgylcheddol cymhleth."

Mae'r prif Bentref Olympaidd yn arddangosfa ar gyfer pensaernïaeth gynaliadwy gyda phanelau solar, bylbiau golau ynni isel a d_r glaw i ddyfrio'r mannau gwyrdd. Mae canllawiau wedi'u llunio fel y gall digwyddiadau eraill elwa ar hyn yn y dyfodol. Meddai Ms Mercedes BRESSO, Llywydd Regione Piemonte "Ar gyfer Torino 2006, cynlluniwyd etifeddiaeth tymor hir o ddatblygu a chynaliadwyedd. Mae cydnabyddiaeth y Comisiwn Ewropeaidd yn amlygu gallu polisïau rhanbarthol i greu enghreifftiau rhyngwladol o arferion gorau".

Ar gyfer EMAS, ewch i: **http://www.eu.int/comm/environment/emas/index_en.htm**

Strategaeth y Comisiwn Ewropeaidd i wella'r amgylchedd mewn dinasoedd

Heddiw, lansiodd y Comisiwn Ewropeaidd Strategaeth Thematig newydd ar yr Amgylchedd Drefol i helpu Aelod Wladwriaethau ac awdurdodau rhanbarthol a lleol i wella perfformiad amgylcheddol dinasoedd Ewrop.

Mae'r Strategaeth yn un o saith a ragwelir o dan y chweched Rhaglen Gweithredu Amgylcheddol. Y prif weithredoedd o dan y strategaeth yw canllawiau ar reoli amgylcheddol integredig ac ar gynlluniau trafnidiaeth drefol gynaliadwy, hyfforddiant, a chymorth ar gyfer cyfnewid arferion gorau yr UE gyfan, a phorth rhyngrwyd ar gyfer awdurdodau lleol.

Am fwy o wybodaeth, gweler **www.europa.eu.int/comm/environment/urban/home_en.htm**

Sioe Foduron Ewrop 2006 yn rhoi sylw arbennig i bio-danwydd

Roedd arddangosfa yn y Sioe Foduron ym mis Ionawr 2006 yn cynnwys gwybodaeth estynedig am beth yn union yw bio danwydd, pa effaith a gaiff ar yr amgylchedd a cheir, a sut mae'r dechnoleg sydd ynghlwm â'r tanwydd yn gweithio.

Yn ystod agoriad y stondin bioethanol, dywedodd Andris Piebalgs, y Comisiynydd Ynni, fod yr UE yn hyrwyddo'r defnydd o biodanwydd i fynd i'r afael â phroblemau diogelwch cyflenwad a newid yn yr hinaswdd. Mae angen i biodanwydd chwarae rôl allweddol ym mholisi ynni Ewrop.

Cytundeb REACH y Cyngor ar ddeddfwriaeth gemegol newydd yr UE

Croesawodd y Comisiwn Ewropeaidd gytundeb gwleidyddol y Cyngor ar system gynhwysfawr newydd wedi'i hanelu at sicrhau gwell diogelwch o ran cynhyrchu a defnyddio sylweddau cemegol. Mae'r system newydd, REACH, yn golygu Cofrestru, Gwerthuso ac Awdurdodi Cemegion a bydd yn cymryd lle 40 deddf gyfreithiol gyfredol. Bydd yn sefydlu Asiantaeth Gemegion newydd ar gyfer Ewrop yn Helsinki i reoli'r broses o gofrestru sylweddau drwy gronfa ddata.

Disgwylir y bydd y penderfyniad terfynol ar REACH yn cael ei wneud gan Senedd a Chyngor Ewrop yn hydref 2006. Mae'r Comisiwn yn disgwyl y bydd y Rheoliad yn dod i rym yng ngwanwyn 2007. Wedi hynny, bydd yn cymryd oddeutu blwyddyn i Asiantaeth REACH fod yn weithredol. Yn unol â hyn, disgwylir i ofynion gweithredol REACH ddechrau cael eu cymhwyso o 2008 ymlaen.

DIGWYDDIADAU-CYMRU

Plannu Tirlun Bwytadwy – cyrsiau 10 wythnos

Pryd? Dyddiadau gwahanol rhwng Ionawr a Mai 2006

Ble? Caerdydd, Y Bont-faen

Disgrifiad

Yn seiliedig ar egwyddorion amaethyddiaeth barhaol (permaculture), bydd y cwrs hwn yn eich tywys drwy: dechnegau tyfu bwyd a garddio cynnal isel, rheoli pla yn naturiol, gweithio gyda chwyn, gwyddoniaeth pridd sylfaenol a thechnegau rheoli dŵr.

Am fwy o wybodaeth, gweler **http://www.cardiff.ac.uk/learn** neu anfonwch e-bost i **learn@cardiff.ac.uk**

Lansiad gwleidyddol Atal Anhrefn Hinsawdd

Pryd? 28 Chwefror 2006

Ble? Caerdydd

Disgrifiad

Mae Atal Anhrefn Hinsawdd Cymru yn gynghrair o gymdeithas sifil sy'n gweithio i hybu ymwybyddiaeth y cyhoedd, a thrwy hyn y gweithredu gwleidyddol angenrheidiol i atal anrhefn hinsawdd. Y digwyddiad hwn fydd lansiad gwaith Atal Anhrefn Hinsawdd yng Nghymru.

Am fwy o wybodaeth anfonwch e-bost i **RBates@wwf.org.uk**

Cynulliadau Cyffredinol Model y Cenhedloedd Unedig

Pryd?	8 Mawrth 2006	10 Mawrth 2006	15 Mawrth 2006	16 Mawrth 2006
Ble?	Y Barri	Cwmbran	Llangefni	Yr Wyddgrug

Disgrifiad

Efelychiad a luniwyd i hybu ymwybyddiaeth pobl ifanc am y Cenhedloedd Unedig, a datblygu eu sgiliau trafod a chydweithredu.

Am fwy o wybodaeth anfonwch e-bost i **martinpollard@wcia.org.uk**

International Opportunities in Waste Management & Recycling

Pryd? 1 Mawrth 2006

Ble? Gwesty'r Village, Caerdydd

Disgrifiad

Gall cwmnïau Cymru ddysgu ynghylch sut i ddelio'n fwy effeithiol â'u cynhyrchion gwastraff. Bydd cyfleoedd rhwydweithio i gwmnïau sydd â chynhyrchion/gwasanaethau rheoli gwastraff y maent am eu hyrwyddo.

Am fwy o wybodaeth anfonwch e-bost i **william.conn@wales.gsi.gov.uk**

Cynhadledd y Gwledydd Celtaidd – Arfer Da mewn Datblygu Cynaliadwy

Pryd? 15 Mawrth 2006

Where? Caerdydd

Disgrifiad

Mae'r prif siaradwyr yn cynnwys Carwyn Jones AC, y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cefn Gwlad a Chynllunio, a Jonathon Porritt CBE, Cadeirydd y Cyngor Datblygu Cynaliadwy. Bydd gweithdai yn canolbwyntio ar enghreifftiau ymarferol o ddatblygu cynaliadwy ar waith yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, a hyrwyddo cyfnewid syniadau.

Am fwy o wybodaeth, gweler **http://www.sd-commission.org.uk/wales/**

Y Llwybr i Gynaliadwyedd

Pryd?	27 Mawrth	29 Mawrth	31 Mawrth
Where?	Bangor	Caerfyrddin	Caerdydd

Disgrifiad

Bydd Cymru Gynaliadwy yn cynnig sesiynau hyfforddi am ddim yn ystod mis Mawrth 2006 (Gogledd, De a Gorllewin Cymru) wedi'u hanelu at staff sector cymunedol/datblygu, mentrau cymdeithasol a gwirfoddolwyr. Y bwriad yw eich helpu i gyflwyno polisïau ac arferion datblygu cynaliadwy yn eich sefydliad.

Am fwy o wybodaeth anfonwch e-bost i **sustainablewales@btconnect.com**

DIGWYDDIADAU RHYNGWLADOL

Ffynonellau cyllid ar gyfer Mentrau Bach a Chyhoeddus sydd ag amcanion datblygu lleol/rhanbarthol

Pryd? 16 – 17 Chwefror 2006

Where? Brwsel

Disgrifiad

Mae'r sesiynau'n cynnwys:

Profiad Ffrainc o fenthyciadau heb warant

Profiad y DU o Sefydliadau Cyllid Datblygu Cymunedol

Profiad yr Almaen o gredyd meicro

Am fwy o wybodaeth anfonwch e-bost i **rossana.scaricabarozzi@eurada.org**

GLOBE 2006

Pryd? 29 – 31 Mawrth 2006

Where? Vancouver, Canada

Disgrifiad

Mae digwyddiadau GLOBE a gynhelir bob dwy flynedd yn dod â chyfranogwyr ynghyd o bedwar ban byd i fynd i'r afael â materion sydd wrth wraidd cynaliadwyedd corfforaethol, ynni byd eang a blaenoriaethau amgylcheddol, a dyfodol datblygu trefol cynaliadwy.

Am fwy o wybodaeth, gweler **http://www.globe2006.com**

Euro Environment 2006

Pryd? 31 Mawrth – 2 Ebrill 2006

Where? Aalborg, Denmark

Disgrifiad

Bydd y gynhadledd yn fforwm Ewropeaidd rhyngddisgyblaethol ac ysgogol lle gall busnesau ryngweithio â llywodraethau a rhanddeiliaid mewn deialog adeiladol ar eu perfformiad amgylcheddol a datblygu cynaliadwy.

Am fwy o wybodaeth, gweler **http://www.euro-environment.dk**

Rhanbarthau sy'n cyflwyno Strategaeth Datblygu Cynaliadwy newydd yr UE

Pryd? Ebrill 2006 (gweler y wefan am fwy o fanylion)

Where? Brwsel

Disgrifiad

Bydd y digwyddiad hwn yn gwahodd ymarferwyr datblygu cynaliadwy ac arbenigwyr rhanbarthol i lunio cynllun gweithredu ar y cyd ar Strategaeth Datblygu Cynaliadwy newydd yr UE.

Am fwy o wybodaeth, gweler **http://www.sustainable-euregions.net**

Canolfan Gymunedol Tŷ Llywelyn, Llandudno – Anne Forbes

Dechreuwyd Cymdeithas Gymunedol TRE CWM chwe blynedd yn ôl mewn cyfarfod a alwyd gan y Cyngor i'r tenantiaid. Dywedwyd wrthym y gallai fod yn bosibl iddynt gael rhywfaint o arian ar gyfer prosiect ac roeddent am beth oedd ei angen arnom. Penderfynwyd bod angen dirfawr am ganolfan gymunedol. Gadawais y cyfarfod yn meddwl na fyddai hyn byth yn digwydd - mae'r Cyngor yn llawn siarad ond heb weithredu.

Synnwyd pawb pan gysylltodd y Cyngor â'r holl denantiaid eto i ddweyd wrthym y bu'r cais i Cymunedau yn Gyntaf am gyfanswm o £287,000 yn llwyddiannus. Cawsom ein syfrdanu. Yna, roedd yn rhaid i ni drefnu'n hunain a sefydlu Cymdeithas Gymunedol Tre Cwm. Ddeuddeg mis ar ôl y cyfarfod gwreiddiol, roedd ein canolfan gymunedol yn cael ei hadeiladu. Ym mis Mawrth 2003, rhoddwyd yr allweddi i ni, ac agorwyd y ganolfan yn swyddogol ym mis Gorffennaf.

Nid oedd unrhyw un yn meddwl y byddai mor llwyddiannus â hyn. O fewn cyfnod byr iawn, sylweddolwyd bod angen adeilad mwy arnom. Roeddem yn cynnal dau glwb galw draw i'r plant; roedd gennym gyrsiau TG, cymdeithaseg, troseddeg, cymorth cyntaf, hylendid bwyd, iechyd a diogelwch a datblygiad ieuenctid i enwi dim ond rhai.

Rydym wedi helpu pobl ifanc i gael rhai sgiliau sylfaenol a gwaith. Rydym bellach yn cyflogi dau berson lleol, ac mae pobl leol eraill yn fwy hyderus yn eu galluoedd eu hunain. Ein bwriad ar gyfer y dyfodol yw ymestyn yr adeilad. Mae angen dirfawr am gaffi cymunedol, mwy o swyddfeydd a mwy o ofod. Mae gennym fwy o brosiectau ar waith erbyn hyn, fel gardd i blant a chlwb natur, y prosiect coetiroedd, cwmni bwyd cydweithredol, teithiau, clwb heini, ac ysgol Sul. Mae aelodau'r gymuned leol yn mynychu pob un o'r rhain.

mailto:tyllywelyn1@btconnect.com

Coedwigaeth a Datblygu Cynaliadwy yn India – Mr D Rajasekar

Rwy'n gweithio fel swyddog Coedwigoedd Rhanbarthol, yn Adran Goedwigoedd y Punjab, sy'n rheoli cyfoeth cyhoeddus Coedwigoedd a Bywyd Gwyllt - sef rhan bwysig o'r Amgylchedd. Mae 22% o ardal ddaearyddol India wedi'i gorchuddio â choedwigoedd. Mae India yn ganolbwynt pwysig i fioamrywiaeth, ond mae pwysau anferthol ar ddiogelu yr eiddo cyffredin hwn rhag y boblogaeth fawr o bobl (1 biliwn) a gwartheg.

Y llywodraeth sy'n gyfrifol am reoli'r adnoddau hyn gan fod 99% o'r Coedwigoedd Cenedlaethol o dan reolaeth y llywodraeth.

Nid oes angen ymhelaethu ar rôl coedwigoedd a bioamrywiaeth mewn Datblygu Cynaliadwy. Mae'r amgylchedd cyfan yn dibynnu ar goedwigoedd ac mae gan India bolisi coedwigoedd i sicrhau bod 33% o'r ardal a orchuddir gan goedwigoedd yn cael ei defnyddio ar gyfer datblygu ffyrdd o fyw cynaliadwy.

Mae datblygu cynaliadwy yn India yn golygu datblygu heb aberthu dyfodol cenedlaethau yn y dyfodol. Ar hyn o bryd, caiff y Coedwigoedd eu rheoli gyda chyfranogiad pobl. Caiff bywyd gwyllt India ei reoli drwy ei Rhwydwaith Ardaloedd Gwarchod eang o 100 o Barciau Cenedlaethol a 500 o Warchodfeydd Bywyd Gwyllt. Gelwir y dull hwn yn ddull amddiffynfa, a chaiff pobl eu symud fel arfer o'r ardal warchod bywyd gwyllt. Mae angen symiau mawr o gyllid a llawer o gefnogaeth gan y bobl leol ar gyfer hyn.

Ar hyn o bryd, mae'r dull yn cynnwys trawsleoli'r bobl yr effeithir arnynt a rhoi gwaith buddiol iddynt drwy gynnig dewisiadau amgen. Mae angen trefnu cyllid ar raddfa fawr a hybu ymwybyddiaeth ymysg pobl leol ar gyfer hyn. Mae India'n ceisio gwneud hyn gyda chymorth yr holl asiantaethau sy'n gysylltiedig â gwarchod bywyd gwyllt. Mae'r gwaith o gydbwyso blaenoriaethau cymdeithasol ac amgylcheddol rhwng gwarchod a datblygu yn broses hir, ac mae India'n gwneud cynnydd graddol.

Mae'r gwaith o hybu ymwybyddiaeth am gynhesu byd-eang yn Ewrop yn anferthol, ond mae angen ailystyried y camau a gymerir i ddiogelu adnoddau naturiol, ac ailystyried ei ecsbloetio y tu hwnt i faint y gellir ei gymryd. Hefyd, mae angen cydweithredu ag India ar frys i drosglwyddo technolegau amgen glân i leihau gollyngiadau byd eang,

mailto:dorairaj.rajasekar@gmail.com